Pennaeth/Headteacher

Mrs I Spowage

Ysgol Bro Dinefwr
Esgyn ar adain dysg

Mehefin 2020

Annwyl rieni/warcheidwyr/disgyblion Blwyddyn 6

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at eich croesawu i Ysgol Bro Dinefwr ym mis Medi.

Fel arfer, byddech chi wedi ymweld â'r ysgol yn ystod yr amser hwn, a byddech chi wedi cael digon o gyfleoedd i weld yr ysgol ar waith ac i gwrdd ag aelodau o staff a disgyblion eraill yn yr ysgol.

Dydy hyn ddim yn bosib ar hyn o bryd, felly rydym wedi trefnu sawl peth ar eich cyfer yn ystod y mis nesaf:

- Rydym wedi rhannu fideo ar ein Cyfryngau Cymdeithasol gyda Mrs Spowage a Mrs Davies yn eich croesawu chi i'r ysgol ac yn rhoi gwybod am rai o'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd.
- Os ydy'ch rhieni chi'n dilyn yr ysgol ar Trydar (@BroDinefwr) neu Facebook (Ysgol Bro Dinefwr), mae'n bosib eich bod chi wedi gweld nifer o fideos a gweithgareddau sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol yn barod!
- Rydym wedi creu ardal ar wefan yr ysgol (www.brodinefwr.org.uk) yn arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 6. Yma, mae gweithgareddau i chi ddod i adnabod yr ysgol a'r athrawon; cystadleuaeth arbennig i chi greu logo i'n ardal allanol newydd ni, yn ogystal â thaflenni i'w llenwi ar gyfer dechrau yn yr ysgol.
- Mae Mrs Davies wedi bod yn brysur iawn yn gweithio gyda'ch athrawon presennol yn casglu gwybodaeth amdanoch chi a threfnu eich grwpiau dysgu.
- Drwy'r wefan, rydym yn gobeithio y byddwch yn gallu cwrdd â'ch Tiwtor Dosbarth, a chael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau.

Rydym yn paratoi eich sesiynau chi ar gyfer mis Medi yn barod, ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weld chi yma fel rhan o'n hysgol ni.

Mrs Spowage

Pennaeth

Pennaeth/Headteacher

Mrs I Spowage

Ysgol Bro Dinefwr
Esgyn ar adain dysg

June 2020

Dear parent/guardian/Year 6 pupil

We are very much looking forward to welcoming you to Ysgol Bro Dinefwr in September.

Usually, you would have visited the school during this time, and you would have had plenty of opportunities to see the school at work and to meet other members of staff in the school.

This is not possible at the moment, therefore we have organised several things on your behalf for the next month:

- We have shared a video on our Social Media, with Mrs Spowage and Mrs Davies welcoming you to the school and letting you know about some of the arrangements that are currently being planned.
- If your parents follow the school on Twitter (@BroDinefwr) or Facebook (Ysgol Bro Dinefwr), it's possible that you will have seen some of our activities and videos from the school already!
- We have created an area on the school website (www.brodinefwr.org.uk) specifically for Year 6 pupils. Here, there are activities for you to get to know the school and the teachers; a special competition to create a logo for our new outdoor area, as well as forms to complete in order for you to start in school.
- Mrs Davies has been very busy working with your current teachers collecting information about you and organising your teaching groups. Through the website, we hope that you will be able to meet your Form Tutor, and have an opportunity to ask any questions.

We are preparing your sessions for September already, and look forward very much to seeing you here as part of our school.

Mrs Spowage

Pennaeth